PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 392 | HYDREF 2016



Mêl lleol

t.9



Sion a Huw

t.11



Mabli Tudur

t.7

# Tractors! Tractors! Tractors!






**Ysgol Rhydypennau** - Nia Gore gafodd y syniad o wneud rhywbeth newydd i godi arian i Gymdeithas Rhieni Athrawon Ysgol Rhydypennau. Trefnwyd taith dractorau o 20 milltir o amgylch y wlad - rhwng raffl a 42 o dractorau wedi cymryd rhan casglwyd £1,300. Da iawn Nia! Lluniau: Iestyn Hughes



**Penrhyn-coch** - Y Cynghorydd Dai Mason yn cychwyn Taith Dractorau Penrhyn-coch.




Dafydd Thomas, Eisteddfa Gurig, yn cludo Aneurin Rowlands a Steffan Thomas. Gweler t.19 am fwy o hanes.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Tachwedd**
**Deunydd i law: Tachwedd 4. Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 16**

**HYDREF 19** Nos Fercher Balchder Bro – dathlu llwyddiant tri o'n llenorion – ym Methlehem, Llandre am 7.30

**HYDREF 20** Nos Iau Dana Edwards yn sôn am ei nofel *Pam?* Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30 SYLWER Y CYNHELIR Y NOSON HON AR NOS IAU

**HYDREF 21** Nos Wener 'Talentau'r Fro', yng ngofal Rhodri a Cêt Morgan, Glanfred. Cymdeithas Lenyddol y Garn, noson agoriadol yn y festri am 7.30.

**HYDREF 25** Nos Fawrth Cwrdd diolchgarwch Capel Madog am 6.30 Pregethwr gwadd: Y Parchg Carwyn Arthur, Tregaron

**HYDREF 27 a 29** Nos Iau a Dydd Sadwrn Eisteddfod Sir CFFI Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid

**HYDREF 29** Nos Sadwrn Cofiwch droi y clociau awr yn ôl!

**TACHWEDD 2** Nos Fercher Stomp Llyfrau gyda thimau o bedwar papur bro ardal Aberystwyth ym Morlan, Aberystwyth am 7.30

**TACHWEDD 4** Nos Wener Noson lansio Cymru i bawb. ym Morlan, Aberystwyth am 7.30 @cymruibawb cymruibawb.cymru

**TACHWEDD 4** Nos Wener Cyngerdd Mawreddog yn Ysgol Bro Teifi am 7.30 i gyhoeddi bod yr Ŵyl Gerdd Dant yn Llandysul yn 2017 gyda Côr y Wiber, Catrin Aur, Fortza, Elen Morgan, Dawnswyr Talog a Chôr Bro Teifi; arweinydd: Iwan Griffiths. Tocynnau: £10 i oedolion, £5 i blant 16 oed ac iau.

**TACHWEDD 5** Nos Sadwrn Noson yng nghwmni John ac Alun a Wil Tân yn Llety Parc am 8.00 Mynediad drwy docyn £10 ar gael o Westy Llety Parc neu gan Megan Jones 01970 612768. Yr elw tuag at Ambiwlans Awyr Cymru

**TACHWEDD 10** Nos Iau Dyfodol Cymru ar ôl Brexit – trafodaeth yn Neuadd Rhydypennau am 7.30. Noson wedi'i threfnu gan gangen Plaid Cymru, Rhydypennau. Manylion pellach yn y rhifyn nesa. Croeso cynnes i bawb.

**TACHWEDD 16** Nos Fercher Naomi Jones o Barc Cenedlaethol Eryri "Hedd Wyn a'r Ysgwrn" Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**TACHWEDD 17** Nos Iau Goleuadau coeden Nadolig yr Exchange Stores, Capel Bangor, yn cael eu troi ymlaen – mins peis, gwin twym ac adloniant. Croeso i bawb – o 5.00 ymlaen.

**TACHWEDD 18** Dydd Gwener Diwrnod Plant Mewn Angen

**TACHWEDD 18** Nos Wener Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7.00

**TACHWEDD 18** Nos Wener 'Noson o Bictiwrs', yng nghwmni Wynne Mel, Canolfan y Morlan, Aberystwyth. Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30.


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Medi 2016

**£25** (Rhif 234) Nerys Hughes, Bodhywel, Bow Street

**£15** (Rhif 280) Gwenan Davies, 48 Ger-y-llan, Penrhyn-coch

**£10** (Rhif 222) Dinah Henley, Dôl Eglur, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Medi 14.

### Cyfarfod Blynyddol y Tincer

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Tincer nos Fawrth Medi 20 ym Methlehem, Llandre, dan gadeiryddiaeth Bethan Bebb, Goginan. Darllenwyd cofnodion y llynedd a'u derbyn. Cafwyd adroddiadau gan y Cadeirydd, Golygydd a'r Trysorydd, ac am Gyfeillion y Tincer, Dosbarthu a gwerthiant, y Tincer trwy'r post a Hysbysebion. Talodd y Cadeirydd deyrnged i Elin Hefin, y cyn gadeirydd sydd wedi gadael yr ardal am Gaerdydd a dymunwyd yn dda iddi yn ei hardal newydd. Derbyniwyd y cyfrifon. Roedd yn dda gweld fod sefyllfa ariannol y papur yn iach ond atgoffwyd y rhai oedd yn bresennol ein bod yn ddibynnol ar grantiau cenedlaethol a chyfraniadau geir gan Gynghorau Cymuned, sefydliadau eraill ac unigolion i gynnal y papur. Roedd angen gohebydd newydd yn y Borth ac awgrymwyd rhai enwau.

Etholwyd y canlynol fel swyddogion am 2016/7.
Cadeirydd: Bethan Bebb, Goginan
Is-Gadeirydd: Richard Owen, Penrhyn-coch
Ysgrifennydd: Anwen Pierce, Bow Street
Trysorydd: Hedydd Cunningham, Llandre
Golygydd: Ceris Gruffudd, Penrhyn-coch
Trefnydd Gwerthiant: Lila Piette, Bow Street

Atgoffwyd y rhai oedd yn bresennol y byddai rhifyn Mehefin 2017 yn 400fed rhifyn.
Ers y Cyfarfod cytunodd Grace Bailey, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth. Ffôn 871462 fod yn ohebydd yn y pentref – diolch yn fawr iddi.

## 30 MLYNEDD YN ÔL



Tîm Adran Ysgol Rhydypennau, Pencampwyr Chwaraeon Potes Cylch Aberystwyth. O'r chwith i'r dde: cefn - Wyn Williams, Dylan Petche, Aled Rees, Guto Maelgwyn a Darren Wilson. Blaen: Mair Bowen, Bethan Faithfull, Manon Mason (Capten), Rachel Taylor a Ffion Davies. (O'r *Tincer* Hydref 1986)

### Cyfrif Cymraeg i gefnogwyr Everton!

Dechreuwyd cyfrif trydar i gefnogwyr Everton yn y Gymraeg. Soniwch wrth eich ffrindiau – dilynwch gyfrif @EvertonCymru.

### Cystadleuaeth Arbennig i Ddathlu Pen-blwydd Eisteddfod Calan Mai Morlan Aberystwyth a'r Cylch yn 5 oed!

Annwyl gyfaill
Mae pwyllgor Eisteddfod Calan Mai yn gwahodd pobl yr ardal (mae'r dalgylch fel un Ysgol Penweddig) i ddylunio llun i'w ddefnyddio ar glawr rhaglen eisteddfod 2017. Efallai bydd ystyried y canlynol yn help i sbarduno syniad: dathlu 5 oed; Aberystwyth; canu/dawnsio/llefaru/ chwarae offerynnau. Wrth gwrs mae yna bosibiliadau lu eraill.! Cynigir gwobr o £20 ac mae'r gystadleuaeth yn agored i bob oed.

Lluniau i law erbyn 1 Rhagfyr ar y man pellach - un ai drwy'r e-bost: aberystwyth@steddfota.org neu trwy law Dana Edwards, Cilmeri, Ffordd Ddewi, Aberystwyth SY23 1EU.

Gan edrych ymlaen at eich cwmni ar noson yr eisteddfod, 3ydd o Fai 2017.

Yn gywir
Dana Edwards
Cydlynydd yr Eisteddfod

### Clwb Ieuenctid Cristnogol

– rhan o fenter gydenwadol eglwysi Gogledd Ceredigion

**27 Hydref** 6.00-7.00 bl. 4/5/6; 7.00-8.00 bl. 7 ac i fyny
Neuadd Rhydypennau
gyda Zoe Jones a Derfel Reynolds

**3 Tachwedd** 6.00-7.00, bl. 4/5/6; 7.00-8.00 bl. 7 ac i fyny
Neuadd Rhydypennau
gyda Zoe Jones a Derfel Reynolds

**17 Tachwedd** 6.00-7.00 bl. 4/5/6; 7.00-8.00 bl. 7 ac i fyny
Neuadd Rhydypennau
gyda Zoe Glynne Jones a Derfel Reynolds
Cyswllt: ZoeGlynneJones34@gmail.com
01970-611516 neu 07584411524
fb Menter Gobaith
Y Parchedig Wyn Rhys Morris
berwynfa@btinternet.com
Croeso i bawb o flwyddyn 4 i fyny.

### Rhoddion

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.
John Ifor Jones, Penrhyn-coch £25
Janice Petche, Caerfyrddin £18
Mervyn a Sue Hughes, Penrhyn-coch £10

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

### Suliau Pen-llwyn

*Hydref*
23 5.00 Bugail
30 5.00 R.E. Humphreys

*Tachwedd*
6 10.00 Huw Roderick
13 10.00 Bugail
20 Dyffryn – 5.00 Elwyn Pryse
27 10.00 John Tudno Williams

### Merched y Wawr

Cynhaliwyd cyfarfod misol cangen Melindwr Merched y Wawr nos Fawrth y pedwerydd o Hydref. Gyda tywydd braf tebycach i haf na hydref daeth 19 aelod - yn cynnwys un aelod newydd - i ymweld â Eglwys Hanesyddol Llanbadarn Fawr. Croeshawyd gan y Parchedig Hywel Jones cyn offeiriad yr eglwys. Rhoddwyd cyflwyniad hanesyddol i'r hen adeilad hardd yma sydd yn dathlu 1500 mlynedd y flwyddyn nesaf ers i Sant Padarn gyrraedd Gogledd Ceredigion. Roedd yn blwyf mawr iawn yn ymestyn o'r afon Rheidol draw i Glarach ac i Eglwys-fach, yn cynnwys 240 milltir sgwâr. To gwellt oedd ar yr eglwys Geltaidd syml pryd daeth Sant Padarn o Lydaw gyda'i genhadon i sefydlu Mynachlog yn yr ail hanner o'r chweched ganrif.

Mae gan yr eglwys heddiw ddeg cloch yn y tŵr, mwy nac unrhyw eglwys yn y rhan yma o'r Sir.Tynnwyd sylw at y ffenestri lliw hyfryd - yn enwedig un arbennig gan John Petts i goffau bywyd a gwaith cerddorol dyn enwog y plwyf sef yr Athro Ian Parrot.

Cyn gorffen cafwyd cyfle i weld yr arddangosfa yn lleoliad capel y dref gynt. Cyn ymadael rhoddwyd y diolchiadau gan ein llywydd, Angharad Jones. Rhoddwyd cyfraniad hefyd at gronfa gwaith cynnal a chadw hen gloc yr eglwys. Aethpwyd i gael paned i Llety Parc ac yna dal lan a newyddion y Mudiad a'r Gangen. Heulwen Lewis oedd yn llwyddiannus yn ennill y raffl.

### Swydd newydd

Dymuniadau da i Mrs Shan Williams, Brynrheidol, ar ei swydd newydd yn y Brifysgol.


### Pen blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau a Phen blwydd Hapus i Mr Glyndwr Davies, gynt o 7 Dolypandy, sy'n dathlu ei ben blwydd yn 90 ar y pedweryddd ar hugain o'r mis hwn. Mwynhewch eich diwrnod Glyndwr.

### Ysbyty

Mae Mrs Bowen, Glynorig, yn yr ysbyty ers llawer wythnos bellach. Dymuniadau da iddi am wellhad buan iawn.

### Llyfr Newydd




Pob dymuniad gorau ar werthiant y llyfr a ysgrifennwyd gan Mrs Sharon Marie Jones, Bronallt, a lansiwyd yn Waterstones ddydd Sadwrn 1af Hydref. Bu Sharon yn arwyddo y llyfr *Grace - Ella* yn y siop am oriau y dydd hwnnw. Mae'r gyfrol yn stori ddiddorol a chyffrous i blant. Ewch allan i'w brynu.

### Siop i'r Gymuned

Yn ystod yr haf mae siop Exchange wedi mynd o nerth i nerth. Gallwch fentro pa beth bynnag bo'r angen, fe fydd yno, o nwyddau i bapur dyddiol. Ac mae y *Tincer* ar werth yno hefyd!s

Fe gofiwch i'r siop gael ei hail agor yn swyddogol gan y Cynghorydd Rhodri Davies ar Fawrth 23ain wedi 23 o flynyddoedd. Tybed a oedd unrhyw arwyddocâd!!

Mae Mr a Mrs Hughes yn brysur iawn saith niwrnod yr wythnos,yn dechrau yn gynnar yn y bore yn coginio bacwn a ŵy, ac arall i rai sy'n pasio drwy'r pentref ac yn wir i lawer o'r bobl leol. Mae y gwasanaeth hwn yn boblogaidd iawn, ac i'r benywod mae y cacennau cartref hyfryd yn ein gwneud yn ddiog!

Mae yna bob amser groeso, ac mae yn le hyfryd i'r gymuned gyfan ddod i adnabod trigolion eu pentref.

Mae rhai ohonom yn cofio yr hen Exchange, gydag Isaac Lewis tu ôl i'r cownter pren hwnnw, a Jim y mab yn cario sachau o fwyd anifeiliaid ar ei gefn o'r storws wrth ochr y siop, y becws ar waelod yr ale, a'r pwmpiau petrol y tu allan. Anodd amgyffred fod yr adeilad dros ganmlwydd oed, nawr yn stôr sydd wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i Ben-llwyn a Chapel Bangor.

Dymuna Daniel a Mel ddiolch yn gynnes iawn i'r cwsmeriaid hynny am eu cefnogaeth yn eu menter newydd. Mae pawb meddent wedi bod yn garedig



Hen lun o'r siop




Llun yr hen fan - diolch i Vaughan Griffiths, Bow Street




Llun o'r 1930au - diolch i'r Parchg Ifan Mason Davies

ac yn gymorth mawr i lwyddiant y siop. Maent yn ddiolchgar i'r pentre a'r ardal am gefnogi.

Diolchwn ninnau am eu croeso, a hyderwn y bydd gennym siop leol am flynyddoedd i ddod. Dymuniadau da iddynt i'r dyfodol.

Eleni byddant yn cael coeden Nadolig tu fas i'r siop ac ar nos Iau 17fed o Dachwedd maent yn gwahodd eu cwsmeriaid i ddod i weld goleuadau y goeden yn cael eu troi ymlaen. Mins peis, gwin twym ac adloniant - croeso i bawb o 5pm ymlaen.

### Tyncwm Amber a'r Fedal Aur

Llongyfarchiadau i Carys Thomas, Llwyn Teg, sy'n un ar ddeg oed o Lifrai iard Tyncwm, Capel Bangor, a fu yn fuddugol mewn cystadlaethau Neidio Ceffylau yng Nghanolfan David Broom ar benwythnos Gŵyl y Banc yn ddiweddar.

Bu yn cystadlu yng Nghampwriaeth Sioe Neidio i Ieuenctid Prydain Fawr, a daeth adre gyda gwregys a'r fedal aur holl bwysig.

Mae Carys yn gyn ddisgybl Ysgol Pen-llwyn, ac wedi bod yn marchogaeth ers yn ddigon hen i eistedd ar geffyl. Mae ei phoni buddugol "Tyncwm Amber" yn 22 mlwydd oed, ac yn y teulu ers deunaw mlynedd.

Newydd ddechrau mae Carys, yn Ysgol Penweddig, ac yn marchogaeth Amber ers dwy flynedd a hanner. 'Roedd dros 50 mewn nifer yn y gwahanol ddosbarthiadau, a Carys yn fuddugol mewn llawer ohonynt. Enillodd sawl rosette, ond yn fwy pwysig Y Fedal Aur.

Rhaid bod yna orfoleddu a dathlu mawr, penwythnos Gŵyl y Banc hwn. Da iawn Carys ar dy lwyddiant, a phob lwc yn sioeau y dyfodol.



### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â Katy Hoole, Eithinog, yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei thad-cu yn Y Barri yn ddiweddar.

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf Awst a Medi
01970 820 050
Pennau

# Cymdeithas Brodwaith Cymru

Annwyl Olygydd,
Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn i fyfyrwyr Cymraeg sy'n mynd i goleg i ddilyn cwrs tecstiliau.Gall yr ysgoloriaeth olygu hyd at £500 a gellir rhannu os bydd mwy nag un ymgeisydd yn deilwng.
Bu nifer o fyfyrwyr yn llwyddiannus yn y gorffennol a phleser oedd cael arddangos peth o'u gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Disgwylir i'r ymgeiswyr fod yn 18 oed a throsodd.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg , a threfnir darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn.

I gael ffurflen gais neu os am fwy o wybodaeth cysylltwch â mi yn y cyfeiriad isod. 16eg Ionawr 2017 yw'r dyddiad cau.
Gyda diolch,
Yn gywir,
Gwyneth Jones (Ysgrifennydd)
Feidiog, 12 Maes Tegid, Y Bala.
Gwynedd LL23 7BF.
01678 520813 feidiog12@gmail.com

Dilynwch y Tincer ar Trydar **@TincerY**

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán
01970 820149
07980 687475

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Capel Llwyn-y-groes

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch eleni eto gyda Mrs. Iola Alban, Llanilar, yn gwasanaethu. 'Roedd yn hyfryd i weld y Capel yn gyffyrddus lawn gyda nifer o aelodau o'r Eglwys a Chapeli cyfagos wedi ymuno â ni. Diolch i Delyth Davies, Maencrannog, am fod mor barod i chwarae yr organ ac i bawb a fu yn glanhau ac yn addurno y Capel ar gyfer yr achlysur. Diolch o galon.

### Canolfan Marchogaeth Rheidol

Nos Sadwrn olaf mis Medi dathlodd Canolfan Marchogaeth Rheidol dau ddeg pump mlynedd o fodolaeth.

Daeth rhai cannoedd o bobl a phlant ynghyd i fwynhau noson o farbeciw, adloniant i'r plant (a rhai hŷn), raffl ac ocsiwn ynghyd â band lleol. Cafwyd noson i'w chofio ac mae elw'r noson tua £5000.00 yn mynd i gael ei rannu rhwng Sioe Capel Bangor a Marchogaeth i Blant Anabl. Diolch i Iola, ei theulu, staff y Ganolfan, pwyllgor Sioe Capel Bangor a gofalwyr Marchogaeth i

Blant Anabl am gydweithio i wneud y noson yn un mor llwyddiannus.

### Llwyddiant yn Sioe Geffylau y Flwyddyn

Llongyfarchiadau i Dafydd a Sian Morris, Neuadd Parc, ar eu llwyddiant yn cyrraedd Sioe Geffylau y Flwyddyn yn Birmingham ddechrau y mis gyda eu march AdranC . Dyma yr ail dro iddynt gyrraedd y pinacl yma yn y blynyddoedd diwethaf. Dipyn o gamp yn wir!

### Graddio

Llongyfarchiadau i Gethin Morgan, ŵyr Meriel a'r diweddar Vivian Morgan, Is y Coed, ar ennill gradd mewn daearyddiaeth o Brifysgol Abertawe. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

# DÔL-Y-BONT

### Yn gwella

Rydym yn falch o weld Mrs. Primrose Watkin, Pen-y-bont, o gwmpas eto ar ôl bod yn Ysbyty Bron-glais am ychydig ddechrau'r mis.

### Gwobrwyo

Llongyfarchiadau i Gareth Hughes, Y Warren, ar gael ei wobrwyo am ei holl waith caled a'i ymroddiad i Glwb y Llewod Aberystwyth.

### Pen-blwydd hapus

Pen blwydd hapus i Rachel Rowlands, Brynllys, ddathlodd ben blwydd arbennig ar 15 Hydref.

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r cyngor ar Nos Iau, Medi 15 am 7.30. Roedd y cynghorydd Jean Watson yn y gadair ac am ein bod heb glerc fe wnaeth y Cynghorydd Eluned Lewis gymeryd y munudau.

Croesawyd pawb yn ôl ar ôl y toriad dros fis Awst ac aethpwyd ymlaen i drafod yr eitemau canlynol.

**Difflibrilwyr** Adroddwyd eu bod wedi cyrraedd ac yn nawr rhaid trefnu noswaith o hyfforddiant sydd yn gyfleus i bawb.

Pont Rhiwarthen. Roedd rhai aelodau o'r cyngor cymuned wedi mynychu pwyllgor ar y safle gydag aelodau busnesau lleol a chynrychiolydd o'r Cyngor Sir. Siomedig oeddynt yn teimlo fod y Cyngor Sir yn ymateb mor araf i bryderon y cyhoedd. Roedd wedi cael ei ddweud y byddai mannau pasio yn cael eu creu ar hyd y lôn gefn o Glanyrafon ond hyd yn hyn nid ydynt wedi cysylltu gyda'r tirfeddianwyr i drefnu dim. Rhaid cofio hefyd fod y lôn yma yn cael ei hysbysu fel lôn beiciau ac yn awr gyda chymaint o drafnidiaeth ychwanegol mae yn beryglus iddynt.

Hysbyswyd nad ydyw'r sedd wag wedi ei llenwi felly os oes unrhyw un yn gwybod am berson â diddordeb croeso iddynt rhoi ei enw ymlaen.

Penderfynnwyd hysbysu swydd y clerc yn y *Ddolen* a'r *Tincer* a nodi y dyddiad cau fel Tachwedd 4. Terfynwyd y pwyllgor am 8.45.

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

*Trefnwyr Angladdau*
**C T Evans**
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

Porchell
**Eich cigydd lleol**
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
*Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol*

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**STOMP LLYFRAU (7.30, nos Fercher, 2 Tachwedd):** noson llawn hwyl a thensiwn pan fydd cynrychiolwyr o'r papurau bro lleol yn ceisio perswadio'r gynulleidfa i bleidleisio dros ei ddewis ef/hi o lyfr gorau'r 2 flynedd diwethaf. Dewch i drafod. Dewch i fwynhau. Dewch i gefnogi eich papur bro! Mynediad: £3.

**PLYGAIN MORLAN (7.30, nos Fercher, 21 Rhagfyr):** Dewch i ddathlu'r Nadolig yn ein Plygain draddodiadol. Croeso cynnes i bawb.

**Cysylltwch am wybodaeth bellach: 01970-617996 neu morlan.aber@gmail.com**

*Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH*
*01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan*

# GOGINAN

### Newid Aelwyd

Pob lwc i Andrew, Elaine a Manon Davies, Gilfach Glyd wrth iddynt symud o'r ardal i ymgartrefu yn Aberystwyth .

### Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Karen Price, Troedrhiw ar ei dyweddïad i Daf Roberts o Dalyllychau.

### Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch ar Nos Wener, Hydref y seithfed. Cafwyd pregeth amserol a diddorol gan Beti Griffiths. Pregeth yn seiliedig ar adnodau o Bennod 4, Efengyl Marc, dameg yr heuwr.

Addurnwyd y capel yn hardd iawn, fel arfer, gan Eirlys Davies, Brynmeillion. Gwledd i'r llygaid. Chwaraewyd yr organ gan Mair Jones, Coedlan.

Rhoddwyd croeso cynnes gan Arwyn Roberts, Penbryn, i nifer o ffrindiau o eglwysi cyfagos. Braf yw gweld Arwyn wedi gwella ar ôl triniaeth i'w benglin.

Noson gartrefol a bendithiol.

### Mabli

Allwch chi ddim peidio a sylwi ar enw Mabli Tudur y misoedd diwethaf. Bu un o'i chaneuon – 'Temtasiwn' – yn drac yr wythnos ar BBC Radio Cymru diwedd Awst, ac roedd yn canu yng nghyngerdd 'Cofio Aberfan' nos Sadwrn yr 8fed o Hydref yng Nghanolfan y Mileniwm lle canodd gyfieithiad Hywel Gwynfryn o 'I Find Your Love' gan Beth Nielsen Chapman. Cyn hynny bu mewn gweithdai gyda Connie Fisher ac roedd yn aelod o gast yr Urdd o Les Miserables llynedd hefyd yng Nghanolfan y Mileniwm. Merch ifanc hynod brysur!

Ac mae mwy i ddod i'r ferch ddawnus 18 oed sydd yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Caerdydd. Bydd i'w gweld mewn ffilm farddol am Aberfan ar y teledu ac erbyn y cyhoeddir y rhifyn yma o'r *Tincer* bydd wedi hedfan efo criw yr Urdd 2016 i Batagonia lle bydd cyfle i gynulleidfa wahanol werthfawrogi ei doniau.

Mae cysylltiad lleol gan fod Mabli yn ferch i Huw Tudur – mab y diweddar Eirlys a Meirion Davies, gynt o Goginan. Mae'n byw gyda'i mam yng Nghreigiau a'i thad ym Mhen-y-bont.

O gofio i'w mam – Catrin Brooks – fod yn gantores efo y grŵp Catsgam - ac roedd Meirion yn perfformio yn aml yn gerddorol – gyda Chôr Cantre'r Gwaelod, fel aelod o bedwarawd ac o barti noson lawen y Llyfrgell Genedlaethol ac fel unigolyn yn canu alawon gwerin. Toes ryfedd iddi fod cystal perfformwraig! Bu ei llysdad hefyd – Chris Lewis - yn gitarydd i'r grŵp Jess ac ef fydd yn cyfeilio iddi – fel yng Nghanolfan y Mileniwm yn ddiweddar.

Bydd y ffim "The Green Hollow" i'w gweld ar BBC 1 a BBC Four mis nesaf. Daeth actorion lu o Gymru at ei gilydd yn y rhaglen hon a ddisgrifir fel ffilm-gerdd 60-munud gan y bardd, nofelydd a dramodydd Owen Sheers sydd wedi ennill llu o wobrau. Mae y cynhyrchiad yn tynnu ar gyfweliadau gyda rhai oroesodd, rhieni a rhai fu ynghlwm yn yr achub – llawer ohonynt yn siarad am y tro cyntaf am eu profiadau ac yn ymddangos bydd ymhlith eraill Michael Sheen, Jonathan Pryce, Dame Siân Phillips, Eve Myles ac Iwan Rheon.

Haf nesaf bydd yn lansio ei EP cyntaf ac mae ganddi gynlluniau i wneud hynny deirgwaith! Yng Ngheredigion fydd y prif un – yng Ngŵyl Nôl a Mlaen yn Llangrannog, un arall ym Mhen-y-bont ar Ogwr lle mae'n byw efo'i thad a bydd y trydydd yn Ysgol Plasmawr, Caerdydd. Gwyliwch y gofod!



Mabli Tudur

## Ymwelwyr o Awstralia

Fel nodwyd yn rhifyn Medi o'r *Tincer* daeth y Parchg Ddr John McIntosh i'r gwasanaeth boreuol yn Eglwys Penrhyn-coch ar 25 Medi i roi ychydig o hanes David J. Davies (1879-1935), gŵr a aned ym Mhantgwyn, Bont-goch, ac a aeth ymlaen i fod yn brifathro dylanwadol ar Goleg Diwinyddol mwyaf Awstralia, sef Moore College, Sydney. Gadawodd Davies ardal Elerch pan oedd yn blentyn ifanc iawn.

Ar ôl cinio yn y Ficedy gyda'r Parch Lyn Lewis Dafis, cafodd John, ei wraig Diane, a'i chwaer Jean gyfle i ymweld â Bont-goch am y tro cyntaf. Gwelwyd yr ysgol lle bu tad D. J. Davies yn brifathro am gyfnod byr, cyn ymweld ag Eglwys St. Pedr, lle cafodd ei fedyddio yn 1879. Treuliwyd gweddill y prynhawn yn derbyn croeso Eirlys a Richard Huws ar aelwyd Pantgwyn. Roedd hi'n gyd-ddigwyddiad diddorol ac yn bwnc trafod fod hen ewythr i Richard wedi astudio wrth draed Davies yng Ngholeg Moore, cyn treulio ei yrfa yn offeiriad yn ardal Sydney!

# PENRHYN-COCH

### Suliau Horeb

*Hydref*

23 10.30 Beti Griffiths Oedfa bregethu

30 2.30. Raymond Jones. Bethel yn cydaddoli

*Tachwedd*

6 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun

13 10.00 Y Parchg Peter Thomas Oedfa deuluol

20 10.00 Uno ym Methel Y Parchg Peter Thomas

27 10.30 Y Parchg Peter Thomas

### Clybiau Sul

23 Hydref – Hanner Tymor

30 Hydref – Hanner Tymor

20 Tachwedd – Clwb Sul Horeb

27 Tachwedd – ar y cyd yn Horeb

### Clwb Cinio Cymunedol

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 26 Hydref a 9 a 23 Tachwedd. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Golffiwr o fri!

Llongyfarchiadau i Arwyn Morris, 3 Glanceulan, ar ennill cystadleuaeth Plât yr Is-Gapten a drefnwyd gan Glwb Golff Aberystwyth.

### I'r coleg

Dymuniadau gorau i Wil Galbraith, Gwelfor, ar ddechrau cwrs Daeareg ym Mhrifysgol Caerhirfryn (Lancaster).

### Cymdeithas y Penrhyn





Eurig Salisbury, enillydd Medal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni eleni, oedd y siaradwr gwadd yn noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn nos Fercher, yr 21ain o Fedi yn festri Horeb, Penrhyncoch. Wrth ei gyflwyno, soniodd y Cadeirydd, Anwen Pierce, am gefndir llenyddol Eurig gan gyfeirio at ei gyhoeddiadau niferus, yn cynnwys addasiadau Cymraeg o lyfrau i blant.

Fel bardd yn bennaf y mae Eurig wedi dod yn adnabyddus ond am ei nofel fuddugol, *Cai,* y siaradodd i ddechrau. Ar ôl sôn am y gwaith o ysgrifennu nofel a'r profiad o ennill un o wobrau mawr yr Eisteddfod Genedlaethol, darllenodd rannau o *Cai* i rhoi blas i ni o'r stori. Cawsom hefyd weld y Fedal a enillodd a'r copi clawr caled unigryw a gyflwynwyd iddo yn y seremoni.

Roedd Eurig hefyd wedi bod yn rhan bwysig o un o brif sioeau nos y pafiliwn yn y Fenni gan mai ef oedd y bardd a gomisiynwyd i greu cerddi ar gyfer Serenestial: Antur trwy Ofod ac Amser ar y nos Fawrth. Sioe gan Catrin Finch oedd hon oedd yn cynnwys cerddoriaeth, dawns a llenyddiaeth. Soniodd Eurig sut y bu iddo ddewis y soned a'r rhigwm fel mesurau ar gyfer ei gyfres o gerddi am y planedau a darllenodd rai ohonyn nhw. Gellir gweld cerddi Serenestial a llawer mwy ar wefan Eurig sef eurig.cymru.

Roedd hi'n amlwg yn Eisteddfod brysur iawn i Eurig a chafwyd noson ddifyr yn gwrando arno'n traethu.

Yn y cyfarfod nesaf, nos Iau, 20 Hydref, bydd Dana Edwards yn trafod ei nofel, *Pam?*

### Urdd y Gwragedd

Llanerchaeron ddoe a heddiw oedd testun ein gwesteion am fis Hydref, sef Dwynwen Belsey a Gillian Manton – dwy o aelodau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol fu'n sôn ac yn dangos lluniau o'r gwaith adnewyddu sydd wedi cael ei wneud gan wirfoddolwyr ar yr adeilad ac yn y gerddi a'r tai allan. Sefydlwyd Cymdeithas Ceredigion ym 1991 ac mae r gwaith yn dal i fynd ymlaen ac yn edrych am ragor o wirfoddolwyr i stiwardio yn yr ystafelloedd ar wahanol ddyddiau. Diolchwyd ar ran y gwragedd gan y Parchedig Lyn Dafis.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dei Rees Morgan a'r teulu ar farwolaeth ei chwaer Elizabeth Morgan, ym Modlondeb, Penparcau – gynt o Llain Siriol, Maes Seilo.

### Symud

Dymuniadau gorau i Patricia Moore, Maesyrefail sydd wedi symud – yn lleol am y tro - cyn mynd ymhellach i fod yn nes at y plant.

### Ysbyty

Da yw deall fod Richie Jenkins, Cwmbwa, yn gwella ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Treforus yn ddiweddar;

Hefyd Liz Lloyd, Ger-y-llan, ar ôl triniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

## Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2017

Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor yr Eisteddfod nos Lun Medi pan gadarnhawyd dyddiadau Eisteddfod 2017 - nos Wener 31 Mawrth a dydd Sadwrn Ebrill 1af. Beirniaid nos Wener fydd Cerdd: Gwenno Healy; Llefaru: Eilir Pryse; a dydd Sadwrn: Cerdd: Huw Foulkes, Caerdydd; Llefaru: Catrin Heledd, Caerdydd. Y beirniad llên fydd Dafydd Pritchard, Aberystwyth. Rhoddir y gadair a gwobr ariannol er cof am y diweddar Elwyn a Hilda Mason, New Inn, Cwmerfin gan David a Mair Mason a Margaret Mason Pollak a Henry Pollak. Cynhelir y pwyllgor nesaf - fydd yn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol - ar Dachwedd 14 am 7.00 yn Neuadd y Penrhyn ac mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn yr Eisteddfod i fynychu.













Trip ysgolion Sul St Ioan a Horeb i Animalarium y Borth

### Cwrdd diolchgarwch Horeb

Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch Horeb nos Fercher pan ddaeth y Parchg Judith Morris atom i sôn am ei hymweliad â gwersylloedd y ffoaduriad yng Ngwlad Groeg ddiwedd Mai fel aelod o ddirprwyaeth ar ran Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon. Gwnaethpwyd casgliad o £123 tuag at gronfa Ghana Cymorth Cristnogol.

### Croeso

Croeso i Alun a Linda Hughes sydd wedi symud cartref o Gwmerfin i 11 Ger-y-llan. Croeso i'r teulu newydd sydd wedi symud i 4 Tan-y-Berth.

### Diolch

Hoffai Mervyn a Sue, Ger-y-llan, ddiolch i deulu, ffrindiau a chymdogion, am y cardiau, anrhegion a cyfarchion a dderbyniwyd ar ben-blwydd priodas ruddem yn ddiweddar. Diolch arbennig i Karen, Lynne a Robert.

### Gwenynwr ifanc

Clywyd Gwydion ab Ifan, y Felin, yn siarad am wenyna ar y rhaglen 'Galwad cynnar' fore Sadwrn 8 Hydref. Yn ddiweddar gwelwyd twf ymysg y genhedlaeth iau mewn gwenyna a chadw gwenyn ac er fod Gwydion dros 30 oed mae yn ifanc o'i gymharu â rhai eraill sydd yn gwenyna. Bu Gwydion ers blynyddoedd yn beicio a chwarae pêl-droed ond mae y diddordeb hyn wedi cydio ynddo yn ddiweddar. Ymaelododd yng Nghymdeithas Gwenynwyr Cymraeg Ceredigion – a dysgodd lawer ganddynt – ni cheir athro




gwell na Wil Griffiths! Mae'r Gymdeithas yn awyddus i gael mwy o bobl ifanc yn aelodau.

Mae gan Gwydion ddeg cwch yn y Felin – mewn cae ger yr hen felin. Mae yna iorwg (eiddew) a grug yn y cyffiniau a digon o amrywiaeth tyfiant yn yr ardal oherwydd agosrwydd y Fridfa Blanhigion yn IBERS. Mae'n lwcus hefyd nad oes neb yn defnyddio pla-laddwyr yn yr ardal.

Eleni – er ei bod yn flwyddyn wael – fe fu iddo gynaeafu y cnwd cyntaf o fêl. Hysbysebwyd y cynnyrch ar Facebook a gwerthwyd y cyfan mewn bore. Bu'r Golygydd yn ddigon cyflym i gael peth a'i gael yn hynod flasus!

Wrth ei waith pob dydd mae Gwydion yn un o bedwar rheolwr yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Mae'n gwybod am un ysgol yng Ngogledd Cymru sydd yn cadw gwenyn – tybed fydd yna gyfle i rannu ei wybodaeth yn y dyfodol gyda rhai o'r gwersyllwyr? Edrychwn ymlaen i flasu mwy o'r mêl yr haf nesaf!



Dymuniadau gorau i Caleb a Paige Spencer briodwyd yn Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch ar 10 Medi.



Priodas Linda a Stephen Hughes, Dôl Helyg ar 30 Gorffennaf 2016. Pob hwyl i'r dyfodol.

# Llun y mis

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street.
Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/



Cwmsymlog hydrefol


GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Dilynwch y Tincer ar Trydar
@TincerY

# Cael blas ar llyfr

Wil Griffiths *Basned o gawl*
Pris £7. Yr elw i gyd i'r Hospis Lleol ac Ambiwlans Awyr Cymru.
I'w gael o siopau llyfrau neu eich siop leol, ar y we: wilmair@btinternet.com
Ffôn 01970 623334.
Dyma gyfrol ddiweddaraf y gwenynwr, storïwr Cornel Ofan, cyn brifathro Ysgol Llanbadarn a'r cyn gynghorydd Wil Griffiths.




Detholiad o ysgrifau *Yr Angor*, papur bro Aberystwyth, dan bennawd Comins-coch, sydd wrth wraidd y casgliad. Tasg anodd fu ysgrifennu am 'glwstwr o dai lle nad oes erbyn hyn na neuadd na thafarn na chapel nac eglwys', ond yn ei ysgrif ar achub Y Borth rhag pla o wenyn mae'r awdur yn datgelu ei gyfrinach.

Peth digon syml i wenynwr profiadol fyddai cau cawell am yr haid oedd wedi casglu ar y stryd fawr ar brynhawn poeth ganol haf, ond ble fyddai'r sbort yn hynny? Rhaid oedd tynnu holl gyfrin offer y gwenynwr o'r car, rhybuddio'r dorf i sefyll digon pell yn ôl, gwthio llaw ddewr i ganol yr haid i chwilio'r frenhines ac yna eu casglu i gyd i'r cawell yn ddiogel, gan dderbyn yr un pryd cymeradwyaeth y dorf.

Gwenyn o wahanol fathau a geir yn yr ysgrifau hyn – y gweithwyr, y gwenyn segur, y biffgynen hefyd. Ond dawn y dewin yw dod â'r cymeriadau hyn yn fyw, yn y ffordd mae'n eu cael nhw i adrodd eu straeon eu hunain ac yn ei addurniadau fel awdur yn gosod fframyn i'r stori.

*Y gŵr a dreuliai amser yn nhyddyn cymydog a oedd fel banc iddo – yn lle diogel i arbed a chadw arian gan fod gwres a golau rhywun arall yn rhatach.*

*Mae dweud y gwir fel dadwreiddio gwreiddyn dant-y-llew: os gadewir ychydig ar ôl bydd yn siŵr o aildyfu a chreu problem.*

Darllenwch am hanes y beic modur *Royal Enfield 1928, 350cc with Preswick engine* nad yw (hyd yn hyn, efallai) mor enwog â KC16 T. H. Parry Williams. Beth oedd yn cael ei gadw yn *Black Hole* Ysgol Llanbadarn? Pwy oedd piau 'dannedd-dodi-rhegi-awtomatig'? A rhaid dweud bod ei ddisgrifiad o fynd dan ddaear i bwll glo yng Nghwm Cynon yn f'atgoffa'n fyw am fy mhrofiad i yn y Lady Windsor yn Ynys-y-bŵl.


Mae un disgrifiad ganddo sy'n gweddu i'r dim iddo ef ei hun – *'un heb grwydro mhell o'i fro enedigol ond ei fod wedi aros yng ngwynt mwg y tanau mawn, a'i adnabod wrth bob chwa o wynt a chwythai drosto'.* Geiriau ac ymadroddion yw mawn Wil Griffiths a rhaid dirwyn hyn o lith i ben oherwydd rhaid dechrau geiriadur arall yn cynnwys yr holl eiriau anghyfarwydd i mi a geir yn ei ddyddiaduron.

Nid un o'r '*57 varieties*' allan o dun mo'r cawl hwn ond cawl traddodiadol, yn llawn o'r cig a'r llysiau Cymraeg gorau. Ac fel y cawl mwyaf blasus, mae'n gawl eildwym, sydd wedi cael amser i'r holl flasau gwahanol gyfuno a dwysáu.

Darllenwch – cewch flas anghyffredin arno.

**D. Geraint Lewis**
**Llangwyryfon**

# LLANDRE



### Graddio a swydd

Llongyfarchiadau i Rhun Penri ar dderbyn Gradd B.A.Anrhydedd gyda Statws Athro Cymwysedig ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Llongyfarchiadau hefyd ar gael swydd yn Ysgol Gynradd Pen y Pil yng Nghaerdydd. Dymuniadau gorau iddo ar ddechrau ei yrfa.

### Merched y Wawr

Cafodd Merched y Wawr Llandre sgwrs a sleids ddiddorol iawn yn ei cyfarfod cyntaf gan Iestyn Hughes ar ei lyfr Ceredigion wrth fy Nhraed ar Medi 17. Hefyd cawsom peth o hanes ei fywyd yn dod i Geredigion i fyw a fel roedd wedi cwympo mewn cariad a'r lle. Llywyddwyd y noson gan Gwenda James a hefyd ddiolchodd y siaradwr.

### Gradd Meistr

Llongyfarchiadau i Gwion Llŷr James, Tre Medd, ar basio ei MA gyda Theilyngdod mewn Cyfryngau Creadigol Ymarferol ym Mhrifysgol Aberystwyth eleni.

### Swydd

Dymuniadau gorau i Efa Mared Edwards, Bancyreithin, am gael swydd cyfieithu gyda chwmni Trosol yng Nghaerdydd.

### Clwb 50 Banc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn

*Enillwyr Hydref*

1. Yr Arglwydd Elystan -Morgan
2. Wini Davies
3. Gwyn Evans



### Golffiwr o fri

Llongyfarchiadau i Hugh Davies ar gael twll mewn un ar y 14eg ar gwrs golff y Borth ac Ynys-las yn ddiweddar.

**Telerau hysbysebu**

Tudalen lawn – £120
Hanner tudalen – £80
Chwarter tudalen – £50
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn – £40 y flwyddyn (10 rhifyn – misol o Fedi i Fehefin; 6-9 mis £4 y rhifyn; llai na 6 mis (h.y. 1-5 mis) £6 y rhifyn. Cysyllter â'r Trysorydd)

**Camera'r Tincer** Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

# Munud i Feddwl



TUA PYTHEFNOS NÔL fe ddarlledwyd rhaglen ddogfen ar y teledu o'r enw 'A life without Down's Syndrome'. Roedd yr actores Sally Phillips, sy'n fam i Olly, bachgen ifanc llawn asbri, sydd â Syndrom Down, yn codi nifer o gwestiynau anghyfforddus. Cwestiynau fel, pam bod cynifer o blant sydd â risg o Syndrom Down yn cael eu herthylu? Pam yr holl sylw i sgrinio Syndrom Down, o bob cyfIwr, yn ystod beichiogrwydd, a pham bod rhai staff meddygol ond yn rhoi darlun cwbl negyddol a brawychus o fyw efo Syndrom Down?

Well i mi ddatgan diddordeb yn syth. Mae gan Huw ni Syndrom Down. Do, bu'n heriol ar brydiau i fagu Huw, ac oes mae angen mwy o ofal yn aml. Ond byddwch chi rieni'n gwybod bod magu unrhyw blant yn gallu bod yn brofiad gofidus a beichus ar adegau.

Ond os bu gofid, mae llawenydd hefyd. Mae Huw bellach yn bedair ar ddeg oed ac wrth ei fodd yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth, ac mae o'n byw bywyd i'r eitha. Fydd o fyth yn athro prifysgol, ac eto mae o wedi dysgu cyfrolau i ni ac i'w gymuned. Cyfrolau am gariad a gofal, a hapusrwydd a direidi diniwed. Os bu aberth, bu'r wobr yn llawer iawn mwy.

Byrdwn neges Sally Phillips oedd chwalu stereoteip negyddol a brawychus Syndrom Down, ac amlygu'r bendithion. Gobeithio y bydd gweld pobl fel Olly, a Huw ni yn peri i rieni feddwl ddwywaith cyn colli'r cyfle i gael y fath fraint. Gwell byd, byd efo Syndrom Down.

**Sion Meredith**

**Darlledir 'Munud i Feddwl' tua 7.20am o fore Llun i fore Gwener ar BBC Radio Cymru. Diolch i iddynt am ganiatâd i gyhoeddi.**

# MADOG, CAPEL DEWI A CEFN-LLWYD

**Suliau**
**Madog 2.00**
*Hydref*
23 Terry Edwards
30 John Tudno Williams

*Tachwedd*
6 Bugail
13 Elwyn Pryse
20 Bugail
27 Rhidian Griffiths

**I'r Coleg**
Dymuniadau gorau i Hanna Meredydd, Maes Awel, ar ddechrau cwrs Systemau Gwybodaeth Cyfrifiadurol ym Mhrifysgol Bangor.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Hywel Evans, Elonwy, Capel Dewi a Siôn a'r teulu, Tal-y-bont, ar farwolaeth priod a mam, sef Elizabeth Evans.


**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i David a Dorothy Evans, Murmur y Coed, Capel Dewi ar ddathlu eu priodas Ddiemwnt yn ddiweddar. Gobeithio i chi fwynhau'r achlysur; i Elin Wallace, Troedrhiw ar ddathlu ei phen blwydd yn 21 oed. Mae wedi cymryd blwyddyn allan o Brifysgol Bangor i deithio i Ffrainc i astudio ieithoedd ac yn gobeithio symud ymlaen i Sbaen.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Dei Evans, Deilyn, Cefn-llwyd ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais;

Ac â Siân Evans, Llain y Felin, ar ôl torri ei garddwrn yn chwarae karate.

**Priodas**
Ar yr 8fed o Hydref yng Nghapel Madog, priodwyd Anwen Hughes, Gellinebwen â Bedwyr Roderick o Bontsenni. Dymuniadau da a phob lwc i'r dyfodol i'r ddau.

**Diolchgarwch**
Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch yng Nghapel Madog, nos Fawrth, 25 o Hydref am 6.30 o'r gloch. Pregethir gan y Parchg Carwyn Arthur, Tregaron. Croeso cynnes i bawb.



Dros Fanc y Darren ben bore. Llun: Lynwen Jenkins

Dilynwch y Tincer ar Trydar **@TincerY**


# Papurau Bro yn Cystadlu Mewn Stomp Llyfrau


Yn eich tyb chi pa lyfr sy'n haeddu'r teitl 'Llyfr Gorau' o blith y rhai a gyhoeddwyd ers Ionawr 2014?


Dyma fydd yn cael ei benderfynu mewn Stomp Llyfrau arbennig yng Nghanolfan Morlan, Aberystwyth am 7.30, nos Fercher, 2 Tachwedd.

Cynhaliodd Morlan ei Stomp Llyfrau cyntaf ym mis Mai y llynedd fel rhan o ddathliadau dengmlwyddiant y ganolfan. Bryd hynny, roedd deg o unigolion yn ceisio argyhoeddi'r gynulleidfa i bleidleisio dros y llyfr yr oedden nhw wedi'i ddewis fel llyfr gorau'r ddegawd. Roedd yn noson arbennig o hwyliog gyda'r cystadleuwyr yn ceisio pob ffordd bosibl o sicrhau pleidlais (gan gynnwys llwgrwobrwyo â chacennau!). Ers hynny, mae sawl person wedi gofyn i Morlan drefnu Stomp arall a dyna pam yr aethpwyd ati i drefnu'r noson hon ym mis Tachwedd.

Nid cystadleuaeth rhwng unigolion fydd hi'r tro yma, serch hynny, ond brwydr frwd rhwng y pedwar papur bro lleol – *Papur Pawb*, *Y Ddolen*, *Y Tincer* ac *Yr Angor* (dau berson o ardal pob papur bro).




Gofynnwyd i'r wyth cynrychiolydd ddewis ei hoff lyfr Cymraeg o blith y rhai a gyhoeddwyd ers Ionawr 2014. Ar y noson, byddant yn ceisio perswadio'r gynulleidfa taw ei lyfr ef neu hi yw'r gorau a bydd y gynulleidfa yn pleidleisio ar y diwedd er mwyn penderfynu pa lyfr sy'n ennill. Bydd pob papur bro yn derbyn tocyn llyfr £10 i'w ddefnyddio fel y mynnont.

Ymysg y llyfrau dan sylw fydd *Cofio Dic* gan Idris Reynolds, *Taffia* gan Llwyd Owen, *Y Bwthyn* gan Caryl Lewis a *Poeri i Lygad yr Eliffant* gan Wil Aaron. Tybed fyddwch chi'n cytuno â'r dewis.

Dewch i drafod. Dewch i fwynhau. Dewch i gefnogi eich papur bro. Mi fydd hi'n noson llawn hwyl a thensiwn mae'n siŵr!

# Cynnyrch y Sioeau

Ers sawl blwyddyn bu y Tincer yn noddi cystadlaethau ffotograff yn Sioeau dalgylch y papur. Dyma ganlyniadau Capel Bangor a Penrhyn-coch eleni.



Sioe Capel Bangor - 1af: Ystrad Fflur. Beryl Evans, Llangeitho.



Sioe Penrhyn-coch - 1af. Ar y ffordd i Gefn-llwyd. Anthony Moyes, Penrhyn-coch



Sioe Penrhyn-coch 2il Tywydd. Eirian Reynolds, Penrhyn-coch



Sioe Penrhyn-coch 3ydd Juanita Foster-Jones, Capel Bangor

## Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 20 Medi, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gydag Eirian Reynolds yn y gadair. Roedd pawb o'r cynghorwyr yno ond am dri. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mel Evans, Trefor Davies a Tegwyn Lewis; roedd y Clerc hefyd yn bresennol a daeth PC Manon Curley o Heddlu Dyfed Powys atom ar gyfer rhan olaf y cyfarfod.

Anfonwyd dymuniadau gorau'r Cyngor at Tegwyn Lewis a oedd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar, a dymunwyd gwellhad buan iddo.

Materion yn codi: nid oedd unrhyw ddatblygiadau i'w hadrodd am y tir gyferbyn â Horeb, maes parcio Maes Seilo, y bolards ger Pant Drain, na'r ceir ger Ardwyn. Trafodwyd y twll mawr yn y ffordd ger stad Glan Ffrwd, a oedd yn peri gofid i lawer o drigolion yr ardal. Penderfynwyd y dylai'r Clerc gysylltu'n uniongyrchol gyda Rhodri Llwyd yn Adran Priffyrdd Ceredigion a gofyn i'r Cyngor Sir wneud y twll yn ddiogel ac adennill y gost wedi hynny gan bwy bynnag oedd yn gyfrifol am y safle. Adroddodd Eirian Reynolds fod y caban bysiau ger y Swyddfa Bost wedi cael ei lanhau.

Tan-rallt, Pen-bont Rhydybeddau - cafwyd ar ddeall gan Edwina Davies fod perchennog Tan-rallt yn dweud fod ganddo affidafid (papur cyfreithiol) yn dweud mai ef oedd perchen y tir ger Tan-rallt. Penderfynwyd y dylid ceisio setlo'r mater hwn heb fynd i gostau cyfreithiol mawr, felly penderfynwyd gofyn am weld copi o'r affidafid; hefyd y Clerc i holi'r Gofrestrfa Dir i ofyn a oedd modd iddynt roi gwybod i'r Cyngor Cymuned pe bai unrhyw un yn gwneud cais i gofrestru'r tir.

Materion eraill - tynnwyd sylw at y canlynol: y gwair ger 1 Glanceulan angen ei dorri; y perthi ar y ffordd allan o'r Garth angen eu torri gan eu bod yn ei gwneud yn anodd iawn i yrwyr weld wrth ddod i'r ffordd fawr; y clawdd o groeslon Gogerddan hyd at y bont wedi gordyfu, felly angen cysylltu gyda Chyngor y Faenor.

Ar ddiwedd y cyfarfod fe gafwyd cyflwyniad byr gan Manon Curley o Heddlu Dyfed Powys sy'n byw ym Mhenrhyn-coch. Dywedodd fod croeso i aelodau'r Cyngor neu aelodau o'r cyhoedd gysylltu â hi neu PCSO Chris Tipper os bydd ganddynt unrhyw fater i'w godi.

# BOW STREET

**Suliau**
**Garn**
**10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd www.capelygarn.org/**

*Hydref*
23 Terry Edwards
30 John Tudno Williams

*Tachwedd*
6 Aelodau Huw Roderick
13 Elwyn Pryse
20 Bugail - Cymun
27 Rhidian Griffiths

Ymddiheuriadau – trwy ryw amryfusedd llithrodd diawl y wasg y mis diwethaf olygodd i rai o'r eitemau isod beidio ymddangos.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â'r Athro Harold Carter, Maes-y-garn, ar golli ei annwyl wraig Mari. Buont yn briod am 64 o flynyddoedd a mawr oedd ei ofal ohoni. Bu'n athrawes am flynyddoedd yn Ysgol Ardwyn.

**Swydd newydd**

Llongyfarchiadau i Haf ap Robert, Bryncastell, wrth iddi ymgymryd â'i rôl newydd, sef cyfrifoldeb am arwain Campws Cynradd Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth.

**Merched y Wawr Rhydypennau**

Ar noson agoriadol Merched y Wawr Rhydypennau eleni, sef nos Lun, 12 Medi, cafwyd gwledd arbennig mewn sawl ffordd.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Ann Jones, llywydd y gangen am eleni, a braf oedd gweld aelod newydd wedi ymuno â ni. Yna, cyflwynodd Ann y wraig wadd, sef Brenda Jones, un o aelodau'r gangen. Teitl y noson oedd 'O'r Perthi a'r Llwyni' a rhyfeddodd pawb oedd yn bresennol at ddawn Brenda i drawsnewid cynnyrch cyffredin a geir mewn gwrych a gardd yn ddanteithion blasus a deniadol. Does ryfedd fod ei henw i'w weld yn aml ymysg yr enillwyr mewn sioeau mawr a mân dros yr haf.

Cafwyd cyfle i flasu nifer o gynhyrchion amrywiol a baratowyd gan Brenda, o tsytni afal sbeislyd i farmalêd oren gwaed, pupur coch a tsili. Cawsom ein cyflwyno hefyd i tsytni ffa gwyrdd, a jeli gwsberins a chyrens coch – ac roedd Brenda wedi mynd i'r drafferth o ddewis caws addas i gyd-fynd â phob blas. Ymlaen at y cwrs melys – a jam mefus, ceuled lemon neu jeli mwyar yn cael ei daenau'n dew ar sgonen gartref, a chordial mwyar duon i olchi'r cyfan i lawr, fel petai.

Gyda'r baned, a baratowyd gan Beryl Hughes, Maria Owen a Shân Hayward, cafwyd bisgedi lemon a lafant – ysgafn a phersawrus eu blas. Ac fe fentrodd y rhai dewraf yfed rhyw lasiad bach o jin damson hefyd!

Diolchwyd yn gynnes i Brenda gan Shân Hayward, ac enillwyd y raffl, sef hampyr o gynnyrch Brenda, gan Annetta Morgan – roedd y rhif 666 yn rhif lwcus iddi hi!

Noson allan oedd yr ail gyfarfod. Aethom i ymweld ag Argraffdy'r Lolfa, Tal-y-bont. Daeth nifer ohonom ynghyd a chroesawodd Ann Jones, ein llywydd, ni yn gynnes iawn. Wedyn rhoddodd groeso arbennig i Garmon Gruffudd, sydd erbyn hyn wedi cymryd drosodd oddi wrth ei dad, Robat Gruffudd, fel Rheolwr/Gyfarwyddwr y cwmni.

Cawsom hanes dechreuad y fenter gan Garmon ac fel mae pethau wedi newid cymaint. Peiriannau di-ri sydd yn gwneud y gwaith heddiw; hynny ydi, mae staff yn gweithio ar gyfrifiaduron i fwydo'r peiriannau wrth gwrs. Cawsom ymweld â'r ystafelloedd lle'r oedd popeth yn digwydd. Bobol bach am le anferth oedd o, ac roedd popeth yn dawel wrth gwrs, ond gallem ddychmygu'r sŵn pan yw'r peiriannau i gyd yn gweithio!. Noson ddifyr dros ben a diolchodd Ann yn gynnes iawn i Garmon.

Ar ôl hyn aethom i'r Wild Fowler yn Nhre'r-ddôl a chael paned a chacen a oedd yn flasus iawn. Diolchodd Ann i'r staff am eu croeso.

Gwleddoedd o nosweithiau yn wir – ac os hoffai unrhyw ferch yn yr ardal brofi nosweithiau tebyg gyda chwmni difyr, ymunwch â Merched y Wawr Rhydypennau. Rydyn ni'n cwrdd ar yr ail nos Lun yn y mis yn Neuadd Rhydypennau, am 7.30 o'r gloch. Dewch yn llu!

**Brysiwch wella!**

Dymuniadau gorau i Bryn Roberts, Brynmeillion, a Mrs Buddug Jenkins, Maes y Garn, sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau dwbwl!**

Llongyfarchiadau dwbwl i deulu'r Miles, Crefftau Pennau, yr haf yma. Graddiodd Amy, y ferch hynaf, mewn Astudiaethau Busnes a Chymdeithaseg o Brifysgol Lerpwl ym mis Gorffennaf. Erbyn hyn, mae wedi cychwyn gwaith gydag hyfforddiant pellach yn Swydd Amwythig.

Mis Medi 2015, dewiswyd ei chwaer iau, Hannah, i ymuno ag Academi Merched Pêl-droed Cymru. Mae'n hen gyfarwydd â chwarae dros Gymru dan bob oedran, ond ym mis Awst dewiswyd hi i chwarae i'r tîm hŷn mewn gêm gyfeillgar yn erbyn Gweriniaeth Iwerddon ac i goroni'r cwbl, fe'i henwyd yn chwaraewr y gêm. Ers hynny, ennillodd ei chap cyntaf llawn drwy chwarae yn erbyn Israel mewn gêm gymhwysol Ewropeaidd UEFA.Rhwydd hynt i'r ddwy yn eu gwahanol feysydd. Edrychwn ymlaen at glywed mwy o'u hanes.

Diolch i'w rhieni, Alison a Martin, am eu croeso cynnes drwy'r flwyddyn. Mae'r caffi a'r siop yn gaffaeliad gwerthfawr i'r ardal a thu hwnt.

**Go dda, Elin!**

Fore Sadwrn, 1 Hydref, cynhaliwyd bore coffi go arbennig yn Neuadd Rhydypennau. Doedd dim angen cymorth Dudley na Paul Hollywood ar bobyddion ardal *Y Tincer*, oherwydd roedd y lle dan ei sang, a phawb yn cael blas arbennig ar y cacennau bendigedig oedd ar werth, ac yn cael hwyl ar y raffl a'r tombola. Syniad Elin Gore, sy'n 10 oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Rhydypennau, oedd cynnal







**Dathlu yr un diwrnod**
Pen blwydd hapus i'r ddau ffrind o Bow Street - Elis Wyn Lewis a Lewis Ellis Jones. Ganwyd y ddau ar 27 Hydref 1998, felly mae'r ddau yn ddeunaw oed ar y 27fed o'r mis yma ac wedi bod yn ffrindiau gorau ers pan yn fach ! Mae Elis yn chwarae golff i Gymru a Lewis wedi chwarae Rygbi i Gymru! Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

y digwyddiad, a hynny er mwyn codi arian i elusen Macmillan. Bu'r elusen o gymorth amhrisiadwy i'w theulu tra bod ei thad yn derbyn triniaeth yn ystod y misoedd diwethaf. Elin ei hun roddodd sylw i'r digwyddiad yng ngwasanaeth boreol yr ysgol, a hynny o flaen y staff a 160 o'i chyd-ddisgyblion. Diolch i Elin a'i theulu, y llu o ffrindiau a gwirfoddolwyr, a phawb a ddaeth i'w cefnogi, codwyd dros £2,221.87 i goffrau'r elusen yn ystod y bore.

## Chwioryddy Garn

Bu'n rhaid newid trefniadau y cyfarfod diochgarwch arferol ar fyr rybudd oherwydd salwch y siaradwraig, y Barch. Enid Morgan dydd Mercher Hydref 5ed. Ond, yn ôl ei harfer, camodd ein cadeirydd, Llinos Dafis, i'r adwy a threfnu gwasanaeth pwrpasol wrth y byrddau te. Cafwyd dathliad arbennig - gyda chacen, cannwyll a chân - i ddymuno'n dda i Mrs. Annie Edwards, Garreg Lwyd ar gyrraedd 90 oed. Hyfryd ei gweld yn edrych mor osgeiddig. Diolch i Shân am y gacen a'r blodau. Gwnaed casgliad at Llyfrau Llafar i'r Deillion yn ystod y prynhawn. Glan Davies fydd yn ein difyrru y tro nesaf ar yr ail o Dachwedd am 2.30. Croeso i bob un ymuno.



## Priodas

Yn ddiweddar priodwyd Jennifer, merch Dewi a Nerys Hughes, Bodhywel, Bow Street, a Tom, mab Mary McGlynn Brynhyfryd, Tynreithyn, Tregaron a Gerry McGlynn, BU iddynt dreulio eu mis mêl ym Mwlgaria a maent yn ymgartrefu yn Aberystwyth.




## Priodas

Llongyfarchiadau i Ruth a Rachel ar eu priodas yng Nghapel Noddfa yn ddiweddar. Mae Ruth yn ferch i Dai ac Auriel Evans, Trewylan a Rachel yn ferch i Bob a Sue Galland, Nuneaton. Mae nhw wedi ymgartrefu yn Bow Street. Pob dymuniad da iddyn nhw.

## Newid aelwyd

Dymuniadau gorau i Emma a Neil, Chloe a Harri, sydd wedi symud o Bryn Castell i Cae Rhos.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Claire a David Lowe, Carreg Wen, ar enedigaeth bachgen bach - Harry, ar 8 Hydref ; brawd bach i'r efeilliaid John a Paul.

## Swydd newydd

Dymunwn yn dda i Helen Jones, athrawes yn Ysgol Rhydypennau, ar ei phenodiad fel Pennaeth Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen, Cyngor Llyfrau Cymru.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mair a Maldwyn Jones a'i deulu yn Nhal-y-bont ar farwolaeth eu mam, Dilys Jones, 21 Tregerddan - brodor o Aber-dâr.





Swper cynhaeaf y Garn gynhaliwyd 16 Medi



Llongyfarchiadau i Ffion Wyn Roberts, Garn Wen, ar gael ei dewis yn Brif Ferch Ysgol Penweddig eleni – fe'i gwelir yma gyda Wil Rees, Aberystwyth – y Prif Fachgen.

# Y BORTH

### Gohebydd newydd

Diolch i Grace Bailey, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth, (871462) am gytuno i fod yn ohebydd y Borth. Cysylltwch â hi gyda'ch newyddion

### Pen blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Mrs. Sally Williams, Tŷ Du, ar ddathlu ei phen blwydd yn 80 oed yn ystod mis Medi.

## GLANWERN

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Rheinallt Richards, Glanleri, ar ôl iddo orfod treulio peth amser yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

### Ffarwelio

Chwith yw gorfod ffarwelio â Margaret Owen. Ar ôl dros 40 mlynedd o fyw yn Fronyrawel mae Margaret wedi symud i'r Fenni. Dymunwn yn dda iddi yn ei chartref newydd gan obeithio y bydd yn parhau i wella ac y bydd yn setlo yn ddiffwdan.

### Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned

Mae Heddlu Dyfed-Powys a Chyngor Cymuned y Borth bellach wedi gorffen sefydlu Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned mewn ymateb i bryderon am oryrru yn y gymuned. Bydd cerbydau sydd yn teithio dros y terfynau cyflymder yn cael eu recordio, eu gwirio a bydd y manylion yn cael eu rhoi i'r Heddlu fydd yn gweithredu gyda'r wybodaeth. Mae'r trigolion wedi rhanu yr ardaloedd y maent yn pryderu amdanynt, sef Stryd Fawr y Borth, Glanwern, Ynys-las a'r allt i fyny am Clarach.

Grŵp o wirfoddolwyr yn dod at ei gilydd yw Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned sydd, gyda chymorth eu Tîm Plismona Bro lleol, yn monitro cyflymderau cerbydau yn eu pentrefi a'u trefi. Mae cerbydau sy'n goryrru'n cael eu cyfeirio at yr heddlu gyda'r nod o addysgu gyrwyr yn hytrach nag erlyn.

Mae goryrru o bryder i nifer o'n cymunedau, a bydd Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned yn cynorthwyo i gofnodi lefel goryrru yn yr ardal a fydd yn ei dro yn cynorthwyo i nodi'r angen ar gyfer gorfodi cyflymder mwy traddodiadol gan yr Uned Plismona'r Ffyrdd, neu hyd yn oed gosod mesurau tawelu traffig, megis arwyddion sy'n fflachio.

Mae'r pwyslais ar godi ymwybyddiaeth o oryrru mewn ardal, gyda gyrwyr sy'n gyrru'n gynt na'r terfyn cyflymder yn derbyn llythyrau yn eu cynghori eu bod wedi gyrru drwy ardal Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned.

Darperir yr holl offer a hyfforddiant, a dim ond lleiafrif o 3 oedolyn dros 18 oed sydd angen arnoch i sefydlu un. Mae'r cynllun yn cael ei dreialu yng Ngheredigion ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei gyflwyno i ardal Dyfed-Powys gyfan dros y misoedd i ddod.


Os oes gennych ddiddordeb mewn sefydlu cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned yn eich ardal chi, neu os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth, galwch 101 a gadewch eich manylion cyswllt ac enw'r pentref, tref neu ardal sydd o bryder i chi ar gyfer tîm plismona bro lleol, neu galwch heibio i wefan Heddlu Dyfed-Powys i gael eu manylion cyswllt.




### Ar goll

Mae'n ymddangos fod un o arwyddion o'r math a welir yn y llun wedi diflannu. Os gŵyr rhywun lle mae o neu os gwelwch o cysylltwch â'r Amgueddfa os gwelwch yn dda. Roeddynt yn ddrud iawn a bydd yn anodd cael un arall.



# O'r Cynulliad Elin Jones

Mae'n braf iawn, adeg yma o'r flwyddyn, i groesawu myfyrwyr newydd a rhai sy'n dychwelyd i Geredigion. Mae'r hwb i'r economi leol gan y myfyrwyr yn fawr ac yn bwysig. Mae ein sefydliadau addysg uwch yn hanfodol i Geredigion, maen nhw'n darparu addysg ar gyfer ein pobl ifanc (a hen), ac yn rhoi Ceredigion ar y map ac mae'r arian mae'r myfyrwyr yn gwario yn cynnal llawer o'n busnesau bach dros y gaeaf. Mae'r sefydliadau hyn, wrth gwrs, hefyd yn cynnig swyddi i hanfodol ledled y sir.

Fe fyddai nifer o bobl yng Ngheredigion felly yn ymwybodol bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi adolygiad yr Athro Diamond i addysg yng Nghymru'r mis hwn. Roeddwn yn falch iawn i gefnogi'r ymchwiliad pan gafodd ei sefydlu, ac fel etholaeth sydd â dwy dref Brifysgol ynddi, mae'n siŵr y byddwn ni yng Ngheredigion yn gwylio canlyniadau'r cyhoeddiad yn agos. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y casgliadau sy'n cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru yn digwydd er lles ein sefydliadau a'n pobol ifanc.

Mae'n siŵr y cofiwch chi o'r mis diwethaf fy mod wedi pwyso ar y Llywodraeth i ail-sefydlu gwasanaeth bws uniongyrchol o Aberystwyth i Gaerdydd. Ers iddo ddod i ben ychydig o fisoedd yn ôl, mae diffyg gwasanaeth uniongyrchol wedi achosi nifer o broblemau i nifer o etholwyr trwy'r sir.

Ar ôl codi'r mater sawl gwaith gyda'r Ysgrifennydd Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros y gwasanaeth, ac ymbil arno i gydweithio gyda'r Cyngor lleol, roeddwn yn falch iawn i dderbyn ymateb ganddo yn datgan bod disgwyl i'r bws bod yn ôl erbyn diwedd yr Hydref.



Elin yn y Senedd gydag enillydd medal Arian yn y gemau Paraolympaidd Jodie Grinham a'r Cyng. Dai Mason.

Y mis hwn yn y Cynulliad, cymerais ran mewn seremoni croesawu athletwyr y gêmau Olympaidd a Pharaolympaidd yn ôl i Gymru ar ôl eu llwyddiannau ym Mrasil. Cwrddais i â'r Cynghorydd Dai Mason â merch o'r enw Jodie Grinham sydd yn wreiddiol o Geredigion, a lwyddodd i ennill medal Arian mewn saethyddiaeth.

Croesawais hefyd aelodau o'r WI yng Ngheredigion, ac fe wnaethon nhw gymryd rhan mewn gwisgo'n binc gyda fi er mwyn hybu ymchwil i gancr y fron. Mae hi wastad yn braf i groesawu pobl o'r ardal, ac edrychaf ymlaen at groesawu rhagor o grwpiau yn y dyfodol.

Cofiwch gysylltu ar unrhyw adeg er mwyn trefnu cyfarfod, neu mae croeso i chi gysylltu â'r swyddfa er mwyn trefnu apwyntiad cymhorthfa.



ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Dilynwch y Tincer ar Trydar
@TincerY

**inc**

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION

13 Stryd y Bont, Aberystwyth

**01970 626 200**




newyddion etc. i / news etc. to:

golygydd@trefeurig.org

William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

**owain bebb a'i gwmni**

CYFRIFWYR SIARTREDIG

*CHARTERED ACCOUNTANTS*

Aberystwyth 01970 607920
3 Tŷ Harbwr, Y Lanfa,
Aberystwyth SY23 1AS

Caernarfon 01286 677 624

Pwllheli 01758 612646

post@owainbebb.cymru

owainbebb.cymru

**y tincer**

Dilynwch y Tincer ar Trydar

**@TincerY**


# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 29 Medi yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Gynghorwraig Siân Jones. Da oedd cael ar ddeall bod gwelliant rhyfeddol wedi digwydd gyda phroblem parcio i ymwelwyr a chleifion yn Ysbyty Bron-glais, ac yn ôl un ffynhonnell roedd y maes yn hanner gwag yr wythnos hon, a diolchwyd i'r Cynghorydd Paul Hinge am ei waith yn dirprwyo ar ein rhan dros y bedair blynedd ddiwethaf. Bu rhai hefyd o gyfeiriadau eraill yn cwyno, ond hir iawn y bu'r Ysbyty yn gweithredu. Parhaed y llwyddiant er lles pawb.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Owain Morgan edrych ar lidiart Maes Chwarae Tregerddan gyda'r posibilrwydd o weldio y cetyn isaf. Mae'r cae yn dal i forio dŵr mewn rhai mannau, ond hir iawn y mae'r perchnogion yn cyfeirio at y sefyllfa. Mae ffens o gwmpas Maes Chwarae Bryncastell wedi ei fendio a da gweld fod y cerbyd wrth y fynedfa wedi ei symud o'r diwedd. Mae Mr Iestyn Hughes wedi ei gyfethol yn gynghorydd a bydd yn bresennol yn y cyfarfod nesaf.

Dangoswyd cynllun wedi ei chwyddo o'r orsaf a maes parcio arfaethedig ar fynedfa pen isaf y pentref. Eglurodd y Cynghorydd Hinge sut y byddai'r cynllun yn cael ei ariannu, sef drwy adran y Ffordd Fawr (Trunk Road), yr orsaf ei hun yn derbyn grant o Ewrop (gobeithio erbyn hyn!) a Network Rail, arian o'r Cynulliad. Wedi cwblhau y gwaith technegol a'r caniatâd cynllunio, fe all y cyfan fod yn barod mewn 3 blynedd (gobeithio!).

Wedi cyfarfod o PACT mae'n amlwg fod yr Heddlu wedi gweithredu ar fyrder i roddi rhybuddion ar gerbydau sydd wedi eu gadael, neu yn parcio mewn llefydd anghyfleus i'r trigolion, oherwydd symudwyd cerbydau o wahanol fannau yn Nhregerddan, ac wrth Gapel Noddfa, ac fel y cyfeiriwyd uchod o fynedfa Cae Chwarae Bryncastell. Bydd peiriannwyr yn edrych eto ar y broblem dŵr ym Mlaen-ddôl.

Nid oedd wrthwynebiad i'r tri chais cynllunio a ddaeth i law. 1. Estyniad llawr cyntaf yn Cwm Glas, Blaen-ddôl, 2. Rhoi to newydd ar 5 Maes Afallen, 3. Estyniad deulawr yn Llys Maelgwyn. Dywedwyd bod tipyn o wrthwynebiad ym mysg trigolion gwaelod Bow Street am y datblygiad tu ôl i Bryn Teifi, am yr annibendod, a'r mynediad i'r ffordd fawr, hefyd sefyllfa Bryn Teifi ei hun. Dywedir fod y gwaith wedi cychwyn cyn i'r caniatâd cynllunio dod trwyddo. Mor bell ag y medrwn gofio, gwrthwynebu'r cynllun wnaeth Cyngor Tirymynach rai blynyddoedd yn ôl, ac yn sicr ni ddaeth y cynlluniau presennol i law'r Cyngor Cymuned.

Telir £15 i Technoleg Taliesin am gadw ein Gwefan, ac ar eu cynnig, penderfynwyd talu yr un swm iddynt am roi adroddiadau'r Cyngor ar y We.

Byddwn yn edrych i mewn i'r oblygiadau o osod Coeden Nadolig i fyny rhwng Llandre a Bow Street. Derbyniwyd cwynion am ordyfiant cloddiau, yr arwydd 30mph wedi mynd o'r golwg yn y Lôn Groes, sietyn rhif 5 Tregerddan yn cau y llwybr. Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 27 Hydref yn Neuadd Rhydypennau.

## Cyngor Cymuned Melindwr

(ardal Capel Bangor, Goginan, Cwmrheidol, Pant-y-Crug a Pisgah)

Yn eisiau **Clerc a Swyddog Gyllid**, sydd yn meddu ar sgiliau gweinyddol da a'r gallu i fod yn drefnus, profiad o ddelio gyda materion ariannol a sgiliau cyfriadurol.

Cynigir cyflog oddeutu £12 yr awr – gyda lwfans ychwanegol gogyfer defnyddio eich cartref fel swyddfa. Mae'r Cyngor yn cwrdd yn fisol a bydd yr oriau a gontractiwyd oddeutu 10 awr y mis.

Am ragor o wybodaeth gan gynnwys swydd ddisgrifiad cysylltwch â Jean Watson (Cadeirydd ) trwy'r ebost jeanwatsoncc@hotmail.com. I wneud cais anfonwch CV i'r ebost uchod erbyn **4ydd o Dachwedd**.

# Ysgol Penrhyn-coch

### Ethol cynghorau yb

Wrth i ni gychwyn tymor newydd rhaid oedd ethol cynghorau newydd i'r Ysgol a dyma fel pledleisiodd disgyblion yr Ysgol:

Cyngor Ysgol: Seren Bedder, Carys James, Evie Keyworth, Zara Yousaf, Catryn Richards, Ffion Curley, Imogen Usher, Lois a Betsan Cleary, Cayden Holmes, Gwen Gibson, Liwsi Curley, Freya Watkins a Catrin Davies

Plant gwyrdd: Carys James, Zara Yousaf, Molly Ralphs, Seren Bedder, Zak Rhodes, Ceri Jenkins, Katelyn Jones a Betsan Cleary.

Llysgenhadon Efydd - Carys James a Luke Bowen.

Dewiniaid Digidol - Seren Bedder, Carys James, Ffion Curley, Connor Robinson.

Llongyfarchiadau i chi i gyd a mwynhewch yr holl drefnu, sgwrsio a chyd-weithio.

### Sesiynau beicio

Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi ymrwymo eu hunain i sesiynau beicio yn wythnosol gyda Becky o'r cynllun 'Beicio Cymru' - braf gweld pob un yn gwisgo dillad addas ac yn canolbwyntio o ddifri ar ddatblygu eu sgiliau

### Clwb yr Urdd

Braf gweld nifer o ddisgyblion yn mwynhau gyda'i gilydd yn ein sesiynau ar nos Fercher - cafodd nifer 'full house' wrth chwarae bingo ac mae sgiliau syrcas plant y cyfnod sylfaen yn reit dda!

### Taith dractorau

Eleni eto cynhaliwyd y daith tractorau ar iard yr Ysgol ar Fedi 18fed roedd hi'n olygfa bendigedig! Cafwyd roliau bacwn, coffi a chacenau hyfryd cyn gwylio'r 38 o dractorau yn cychwyn eu taith ar hyd lonydd yr ardal. Diolch i Lynwen Jenkins am drefnu'r digwyddiad ac i'r sawl a fuodd yn ei helpu-codwyd £1254.14

Ar fore Dydd Sadwrn y 24ain o Fedi daeth criw o rieni ynghyd i dacluso o gwmpas maes yr Ysgol. Hoffwn ddiolch iddyn nhw am eu cymorth bob amser.

### Ymweliad Ysgol Fictorianaidd

Ar Ddydd Gwener 23ain o Fedi aeth disgyblion blwyddyn 3-6 yn ôl mewn amser i'r Ysgol Oes Fictoria yn Nhregaron - roedd pawb yn bictiwr hyd yn oed yr athrawon! Braf oedd clywed fod pawb wedi chwarae rôl wrth ystyried rheolau ac arferion ers llawer dydd.



Ymweliad Ysgol Fictorianaidd



Cam 4 ysgolion iach



Taith dractorau



Clwb yr Urdd - sgliliau syrcas

### Bore Coffi MacMillan

Ar fore dydd Gwener yr 28ain trefnwyd bore coffi MacMillan gan ein cyngor Ysgol o dan arweiniad Miss Cory. Braf oedd croesawu cymaint o ffrindiau'r gymuned a rhieni atom am baned a chacen.Codwyd swm arbennig o £242 i achos arbennig iawn. Diolch i'r rhieni am gyfrannu cacenau.

Yn ystod yr un bore cafodd disgyblion CA2 y cyfle i ddatblygu eu sgiliau camera mewn gweithdy ffilm cyffrous.

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**

CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT

AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

# Ysgol Craig yr Wylfa

### "Tidy Up Day" – Diolch!

Cynhaliwyd dau ddiwrnod o lanhau i fyny, "Tidy Up Day", gan y Gymdeithas Rieni. Bu'r rhieni a phlant a wnaeth wirfoddoli yn gweithio'n galed tu hwnt i dacluso'r ardaloedd allanol ac yn plannu bylbiau blodau. Diolch yn fawr i chi i gyd – mae'r tu allan nawr yn edrych yn hyfryd iawn!

### Bore Goffi MacMillan

Cynhalwyd bore coffi MacMillan lwyddiannus iawn eleni eto! Codwyd £140 tuag at yr elusen! Llongyfarchiadau i Phoebe ac Emmi am ennill y gystadleuaeth "Bake off", ac i Lisa ac Oban am ddod yn ail, ac i Glyn a ddaeth yn drydydd. Roedd y cacennau i gyd yn werth ei gweld – da iawn a diolch i'r plant, rhieni a staff a fu'n coginio, fynychodd y digwyddiad a chyfrannodd tuag at wneud y bore yn un llwyddiannus.

### Cyfnod Sylfaen yn y pyllau creigiog

Cafodd y Cyfnod Sylfaen gyfle i fynd i chwilota yn y pyllau creigiog, ac roeddent wrth eu boddau! Bu'r plant yn chwilio am wahanol greaduriaid bach y môr a chreu patrymau a collage ar y traeth.

### Nôl i'r Oes Fictoria!

Dal bws i Dregaron wnaeth dosbarth Cyfnod Allweddol 2 ar ddechrau mis Hydref, i ymweld a theithio nôl mewn amser i ysgol o Oes Fictoria. Roedd pennaeth llym yn yr ysgol a dysgont i gyd sut oedd bywyd plentyn yn yr oes yma. Cafodd pawb hwyl yn gwisgo i fyny, a gweld arteffactau diddorol o'r oes a chael cyfle hefyd i ysgrifennu gyda cwil ag inc.



Bore McMillan





1 a 2 - Helpu i lanhau'r ardal allanol



Glyn a ddaeth yn drydydd yn y "Bake off"



Cyfnod Sylfaen yn chwilota yn y pyllau creigiog





Yn yr ysgol adeg Oes Fictoria



Phoebe ac Emmi, enillwyr y "Bake off"



Lisa ag Oban a ddaeth yn ail yn y "Bake off"

# Taith gerdded y mis

## Maesnant i Lyn Llygad Rheidol

**Man dechrau**: Ochr y ffordd ger Maesnant.
(Pen uchaf Llyn Nant-y-moch)
**Map**: OS Explorer 213. GR 879775.
**Pellter**: 4.5 milltir. Ychydig yn anodd dan draed wrth ochr y nentydd, ond nid yw yn serth.




Dilynwch nant Maesnant nes cyrraedd y feidr a fydd yn eich arwain fyny at Lyn Llygad Rheidol. Croeswch Nant y Llyn a dilyn y llwybr lawr i gwrdd a feidr a fydd yn eich arwain 'nôl i Maesnant.


**Cyfarfod Cyhoeddus**

**Neuadd Rhydypennau, Bow Street**
**Tachwedd 10 2016 am 7.30**

**BREXIT A DYFODOL CYMRU**

**Beth sy'n digwydd nesaf?**
**Beth fydd perthynas Prydain ag Ewrop i'r dyfodol?**
**Sut mae gwarchod buddiannau Cymru?**

Dewch i wrando a thrafod y cwestiynau hyn ac eraill yng nghwmni


**JONATHAN EDWARDS AS**

**SIMON THOMAS AC**

**Cadeirydd - ELIN JONES AC Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol**


Cyfarfod dwyieithog fydd hwn a bydd cyfieithu ar y pryd

Trefnir gan Blaid Cymru Cangen Rhydypennau

## Colofn Enwau Lleoedd

Ar fap Lewis Morris 'A Plan of the Manor of Perveth' a luniwyd yn 1747, cofnodir yr enw *Ty Cwtta* ar lan ogleddol afon Seilo uwchlaw Penrhyn-coch, ond oherwydd graddfa'r map hwnnw nid yw'n hawdd ei leoli'n fanwl. Serch hynny, ceir gwell syniad o'i leoliad gyda chymorth un o fapiau llawysgrif ystad Gogerddan sy'n nodi cae ar dir Glanrafon o'r enw *Cau nessa Tŷ cwta*:



**Darn o 'A survey of Cwmbw[a] and Daran Vawr farms and such farms as adjoin thereto in the townships of Treveirig and Canol in the parish of Llanbadarn' gan Richard Davis, 1788, trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Y map cyflawn i'w weld yn: https://syllwr.llyfrgell.cymru/1445601#?c=0&m=0&s=0&cv=0**

Heb y mapiau hyn, mae'n debyg y byddai pob cof am yr enw a'i leoliad wedi diflannu gan fod cyfeiriadau ysgrifenedig eraill ato'n brin ac nad oes olion amlwg yn weddill yn y tirlun.

Benthyciad yw *cwta* o'r Saesneg Canol *kut*, *kutte*, yn golygu 'byr, wedi ei docio'n fyr'. Yng nghyd-destun tyddyn, mae'n debyg y byddai'n dynodi un llai na'r cyffredin o ran maint.

Ceir enghreifftiau o'r enw *Tycwta* ar hyd a lled Cymru: un heb fod ymhell yng Nghwmystwyth, Ceredigion; ac eraill yn Waun-fawr, sir Gaernarfon, ym mhlwyf Llanwrthwl, Brycheiniog, ac ym mhlwyf Mynachlog-ddu, sir Benfro.

Gwelir yr elfen *cwta* hefyd mewn enwau lleoedd megis *Lôn Cae Cwta*, Llangefni, Môn; *Wern Gwta*, Llanbeblig, sir Gaernarfon; a *Phlascwta*, Clocaenog, sir Ddinbych.

*Cota*, ffurf fenywaidd ar yr un ansoddair a geir yn yr enwau Lluest*gota* i'r gogledd o gronfa Nant-y-moch, Ceredigion, *Waun Gota*, ar dir Glandunant, Cil-y-cwm, sir Gaerfyrddin, a *Rhiwgota* ym mhlwyf Clydai, sir Benfro.

**Angharad Fychan**
Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. **www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org**


# y tincer

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Ysgol Rhydypennau

### Codi Arian

Ar ôl i Elin Gore glywed am salwch ei thad aeth ati gyda'i mam, Nia, i drefnu Bore Coffi er mwyn codi arian ar gyfer elusen 'Macmillan'. Ar y 1af o Hydref yn Neuadd Rhydypennau daeth toreth o bobl ynghyd i rannu sgwrs ac i fwynhau paned a chacennau blasus. Yn ystod y bore, codwyd y swm anrhydeddus o £1,768.28! Mae Tad Elin, Dusty Gore bellach yn ymateb yn dda i'w driniaeth ac yn cryfhau'n ddyddiol erbyn hyn. Gwellhad buan iddo a llongyfarchiadau mawr i Elin am ei gwaith campus.

### Cymorth Cyntaf

Ar yr 28ain o Fedi daeth PC Goffin i'r ysgol i gynnal sesiynau Cymorth Cyntaf gyda blwyddyn 5 a 6. Yn ystod y sesiynau cyflwynodd wybodaeth angenrheidiol i'r plant ar sut i achub bywydau pobl mewn argyfwng a chafodd bawb gyfle i ymarfer nifer o dechnegau pwysig.

### Prosiect Beiciau Ceredigion

Yn unol â Phrosiect Beicio Ceredigion mae'r ysgol wedi sefydlu clwb beicio; mae'r ysgol yn darparu sesiynau wythnosol er mwyn datblygu sgiliau cydbwysedd a hybu ffitrwydd a diogelwch.

### Mynd am dro

Fel rhan o waith Daearyddiaeth y tymor, cerddodd plant blwyddyn 1 draw i barc Llandre er mwyn cwblhau gwaith maes ar 'Ein Cymuned'. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y plant gyfle i wella eu sgiliau mapio tra'n mwynhau tywydd annisgwyl haf bach Mihangel.

### Cyfarfod

Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar yn y dosbarth derbyn er mwyn rhoi cyfle i rieni i ymweld â'r dosbarth ac i drafod syniadau a gweithgareddau ar Lythrennedd.

### Clwb Cant

Dyma ganlyniad fis Hydref
1af - £25 Huw Davies, Llety Ifan Hen.
2il - £15 Anwen Curran, Bow-Street.
3ydd-£10 Heulwen Morgan, Dolau.



Cynllun Beicio




Elin Gore-Bore Coffi Macmillan



Cymorth Cyntaf gyda PC Goffin



Cyfarfod Llythrennedd



Blwyddyn 1 yn y Parc

# Ysgol Pen-llwyn

### Staff newydd

Bu mis Medi yn fis prysur yn Ysgol Pen-llwyn. Cawsom groesawu dau aelod staff newydd, sef Miss Lauren Parry i ddosbarth 2 a Mr Bryn Shepherd i ddosbarth 3. Hyderwn fod y ddau wedi hen setlo gyda ni belllach a dymunwn iddynt bob llwyddiant.





### Plant y Chwyldro

Fel rhan o'u thema, aeth plant dosbarth 2 a 3 ar ymweliad i hen ysgoldy yn Nhregaron yn ddiweddar. Gwisgodd y plant ddillad a nodweddai Oes Fictoria a braf oedd gweld pawb wedi gwneud ymdrech arbennig, fel y gwelir o'r lluniau. Cawsant dipyn o agoriad llygad o weld sut oedd plant o Oes Fictoria yn cael eu dysgu a gwelsant nifer o arteffactau diddorol.

### Diwrnod Parti

Bu Dosbarth 1 yn cynnal Diwrnod Parti fel rhan o'u gwaith ar ben blwyddi. Unwaith eto gwnaeth y plant ymdrech i wisgo hetiau a gwisgoedd parti. Buont yn llunio cardiau pen blwydd ar y cyfrifiadur, yn sylwi sut mae canhwyllau yn llosgi, yn paratoi brechdanau gan orffen y prynhawn gyda parti pen blwydd Llipryn Llwyd. Roedd Melanie o Siop y Pentre wedi addurno cacen ben blwydd hyfryd i'r plant ei blasu a chawsom lawer o hwyl yn cymryd ein tro i agor y parsel i gerddoriaeth.

### Pêl-droed

Aeth nifer o fechgyn Dosbarth 3 i'r Ganolfan Hamdden fore Mercher y 28ain i gystadleuaeth 5 bob ochr yr Urdd i chwarae pêl-droed. Y canlyniad oedd ennill 2, colli 2 a chyfartal mewn un gêm. Da iawn fechgyn!

### Gwasanaeth Diolchgarwch

Brynhawn Llun y 3ydd o Hydref, daeth nifer dda at ei gilydd i Eglwys Dewi Sant yn y pentref i wasanaeth Diolchgarwch. Bu'r tri dosbarth yn mynegi eu diolch mewn ffordd wahanol, ymunodd y gynulleidfa yn y gân olaf ac anerchwyd y plant gan y ficer, y Parchg Heather Evans.






SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
**Shan Jones**
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd
graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# Tasg y Tincer

Diolch yn fawr i'r tri aeth ati i liwio llun castell Owain Glyndŵr y mis diwetha: Cennydd Davies, Llanilar; Ffion Wynne Jones, Dolgellau; Lewis Ashton, Llanilar. Roedd eich gwaith yn grêt! Dy enw di, Ffion, ddaeth o'r het yn gyntaf. Llongyfarchiadau mawr!

Ydech chi'n hoffi'r adeg hon o'r flwyddyn? Ar ddiwrnod braf o hydref, does dim yn well na mynd am dro a hel y dail lliwgar, crenshlyd, neu eu cicio i bob man a chreu cawod o ddail coch, melyn, gwyrdd a brown. Byddwn ni'n dathlu dau ddigwyddiad yn fuan iawn, sef nos Galan Gaeaf a noson Guto Ffowc. Ydech chi'n bwriadu creu gwisg arbennig ar gyfer nos Galan Gaeaf? A fydd yna ambell wrach, sgerbwd neu ddewin yn crwydro strydoedd ardal *y Tincer* ar y noson honno? Peidiwch â rhoi braw i bobl yr ardal, da chi – cael hwyl sy'n bwysig, a chymryd rhan. A oes gennych chi hoff wrach neu ddewin o fyd llyfrau neu ffilmiau? Fy hoff wrach i yw Rwdlan, er ei bod yn ddrygionus ac yn chwarae triciau ar bobl Gwlad y Rwla.Disgybl yn Ysgol Pant-y-pwca yw Anni'r Wrach, cymeriad mewn cyfres newydd gan Garreg Gwalch. Does neb yn yr ysgol, heblaw'r brifathrawes, yn gwybod mai gwrach yw hi, ac mae hyn yn achosi pob math o helynt! Rwy hefyd yn hoff o Rolanda Hooch – hi yw'r wrach glyfar sy'n rhoi gwersi hedfan i Harry Potter a'i ffrindiau yn Ysgol Hogwarts.

Y mis hwn, rhowch gynnig ar liwio llun y wrach fach yng nghwmni'r ystlumod. Beth, tybed, sy'n berwi yn y crochan? Mwynhewch y tân gwyllt, pan ddaw! Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Tachwedd 1af. Ta ta tan toc!



Ffion



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 392 | HYDREF 2016